Llywodraeth Cymru
Welsh Government










# Datblygu'r diwydiant pren yng Nghymru

## Canllawiau ar gyfer Cynllun Grant Cyfalaf

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Welsh Government, WG54257, Digital ISBN 978-1-83745-238-5
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg.

## ADRAN A: CYFLWYNIAD

Mae'r Nodiadau Canllaw hyn yn esbonio'r cynllun grant cyfalaf "Datblygu’r diwydiant pren yng Nghymru". Gofynnir i chi eu darllen yn ofalus. Os ydych o’r farn wedyn y gallai eich cynlluniau buddsoddi fod yn gymwys i gael cymorth o dan y cynllun hwn, ac rydych yn awyddus i wneud cais am gymorth, gweler 'Sut i wneud cais' yn adran C.

Lansiwyd "Datblygu’r diwydiant pren yng Nghymru", sef Strategaeth Ddiwydiannol gyntaf Cymru ar gyfer Pren, ym mis Gorffennaf 2025. Daw'r strategaeth i fodolaeth yn sgil blynyddoedd o gydweithio â sector pren Cymru, ac mae’n dilyn gwaith ymgynghori helaeth â’r cyhoedd.

Wrth i'r byd weithio tuag at sero net, gall pren a ffibr pren wneud cyfraniad uniongyrchol a phwysig at y newid o ran deunyddiau sydd ei angen ar gyfer datgarboneiddio. Nod y strategaeth yw cynyddu graddfa a gwerth y pren a dyfir a’r cynhyrchion pren a gynhyrchir ledled Cymru. Bydd mwy o ddefnydd o bren ym maes adeiladu yn sicrhau dyfodol y diwydiant coedwigaeth, gan gefnogi buddsoddiadau newydd, swyddi a gwell canlyniadau carbon.

Bydd y strategaeth yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod coedwigoedd Cymru yn parhau i gael eu defnyddio mewn modd gweithredol, cynaliadwy ac amrywiol, gan ddarparu manteision economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol i bobl Cymru am ganrifoedd lawer i ddod.

Mae'r cynllun grant cyfalaf hwn yn elfen bwysig o ‘Datblygu’r diwydiant pren yng Nghymru’, ac mae'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y strategaeth Coetiroedd i Gymru ar gyfer sector cystadleuol ac integredig. Bydd y cyfnod ymgeisio yn agor yn Mis Mawrth 2026. Y gyllideb ddangosol a ddyrannwyd ar gyfer y cyfnod ymgeisio hwn yw £1,500,000. Os cânt eu dewis, rhaid i ymgeiswyr allu cwblhau holl eitemau Gwaith Cyfalaf a gwneud hawliad amdanynt erbyn 31 Mawrth 2027.

Gall ymgeiswyr gyflwyno eu cais cyn gynted ag y byddant yn barod i wneud hynny (gweler Adran C: Sut i Wneud Cais). Bydd y penderfyniadau’n cael eu cyfleu ar y dyddiadau canlynol, neu hyd nes y bydd y gyllideb sydd ar gael wedi'i hymrwymo'n llawn:

- 7 Ebrill 2026

Yn dilyn Etholiadau’r Senedd ar 7 Mai, yn amodol ar gytundeb y Gweinidog/Ysgrifennydd Cabinet perthnasol yng Nghymru, bydd y dyddiadau penderfynu dangosol yn ystod blwyddyn ariannol 2026/2027 fel a ganlyn:

- 30 Mehefin 2026
- 31 Awst 2026
- 31 Hydref 2026
- 31 Rhagfyr 2026
- 31 Ionawr 2027

Gall ymgeiswyr cymwys wneud cais am fuddsoddiad i wella eu gallu i wneud un neu fwy o'r canlynol:

- cynyddu'r capasiti ar gyfer cyflenwi hadau, fel meithrinfa goed a/neu ar gyfer paratoi'r tir
- gwireddu potensial coedwigaeth trwy ddod â choetiroedd o dan reolaeth a/neu gynyddu cynaeafu a galluogi/gwella gwaith prosesu cynradd
- hyrwyddo'r gwaith o gynhyrchu pren a chynhyrchion pren mewn modd economaidd a chynaliadwy, gan ychwanegu gwerth at gynhyrchion coedwigoedd trwy brosesu eilaidd
- cefnogi eu newid tuag at sero net

**Cynyddu'r capasiti ar gyfer cyflenwi hadau, fel meithrinfa goed a/neu ar gyfer paratoi'r tir**

Mae 'Datblygu'r diwydiant pren yng Nghymru', y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren, yn nodi camau gweithredu i ddiogelu ein coedwigoedd i'r dyfodol, gan gynnwys trwy ddewis rhywogaethau a fydd yn gynhyrchiol yn y dyfodol a sicrhau mynediad at stoc genetig amrywiol sy'n briodol i'r hinsawdd. Mae angen cyflenwad dibynadwy o ddeunyddiau genetig coedwigoedd, gan gynnwys digon o gapasiti mewn meithrinfeydd coedwigoedd. Ein nod yw galluogi meithrinfeydd coed i ehangu cynhyrchiant mewn ffordd gynaliadwy, amrywiaethu'r ystod o rywogaethau a dyfir, gwella effeithlonrwydd cynhyrchiant a gwella ansawdd y cynnyrch.

Gellir cyflwyno ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys sy'n awyddus i wneud y canlynol:

- cynyddu'r gallu i gynhyrchu coed ifanc
- gwella, ehangu, awtomeiddio neu fecaneiddio gweithrediadau, lle bo hynny'n briodol, i gynyddu effeithlonrwydd cynhyrchu
- gwella bioddiogelwch trwy well offer trin dŵr a rheweiddio
- gwella cyfleusterau prosesu a storio hadau
- gwella ansawdd a diogelwch ym mhob cam o weithrediadau meithrinfeydd a phrosesu hadau
- cynyddu'r gallu i ymgymryd â gwaith paratoi'r tir cyn plannu coed

**Gwireddu potensial coedwigaeth trwy ddod â choetiroedd o dan reolaeth a/neu gynyddu cynaeafu a galluogi/gwella gwaith prosesu cynradd**

Mae 'Datblygu'r diwydiant pren yng Nghymru', y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren, yn nodi camau gweithredu i sicrhau ffynhonnell ddibynadwy sy'n addas i'r diben ar gyfer y dyfodol. Rhaid i Gymru gymryd camau i gynyddu cynnyrch cynaliadwy pren a ffibr pren a dyfir yng Nghymru. Mae angen i ni gynyddu gwaith coedwigo wrth wella cynhyrchiant o goedwigoedd a choetiroedd sydd eisoes yn bodoli, a hynny drwy reolaeth effeithiol, i gynyddu cynnyrch cynaliadwy o bren i fodloni'r galw yn y dyfodol a lliniaru'r risgiau i ddiogelwch pren.

Gellir cyflwyno ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys sy'n awyddus i wneud y canlynol:

- dod â choetiroedd o dan reolaeth gynaliadwy, gan gynyddu'r cyflenwad o bren a ffibr pren a dyfir yng Nghymru
- galluogi gweithrediadau cynaeafu cost-effeithiol, ar raddfa fach, mewn coetiroedd conwydd a llydanddail heb eu rheoli'n ddigonol, gyda'r effaith amgylcheddol leiaf bosibl

- galluogi gweithio sensitif ar dir serth a safleoedd sy’n anhygyrch ar hyn o bryd
- hwyluso gwaith prosesu cynradd pren yn lleol ar raddfa anniwydiannol
- gwella iechyd a diogelwch

**Hyrwyddo’r gwaith o gynhyrchu pren a chynhyrchion pren mewn modd economaidd a chynaliadwy, gan ychwanegu gwerth at gynhyrchion coedwigaeth trwy brosesu eilaidd**

Mae ‘Datblygu’r diwydiant pren yng Nghymru’, y Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren, yn nodi camau gweithredu i gefnogi cadwyni cyflenwi lleol i roi hwb i'r gwerth posibl yr ydym yn ei gael o'n pren, yr holl ffordd o'r goedwig i'r cynnyrch. Ein nod yw annog y cyflenwad cynyddol o bren sydd ar gael at ddefnydd hirhoedlog, gan gynnwys pren strwythurol wedi'i raddio, yn ogystal â chefnogi’r marchnadoedd a chadwyni cyflenwi presennol sydd eisoes yn dibynnu ar gyflenwad cyson o bren Cymreig. Ein nod yw hyrwyddo’r gwaith o gynhyrchu cynhyrchion yng Nghymru sy'n seiliedig ar bren sydd â gwerth uwch, hirhoedledd estynedig a’r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

Gellir cyflwyno ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys sy'n awyddus i wneud y canlynol:

- hyrwyddo’r gwaith o gynhyrchu pren a chynhyrchion pren mewn modd economaidd a chynaliadwy trwy ychwanegu gwerth
- gwella a/neu gynyddu capasiti odynau i hyrwyddo ychwanegu gwerth at gynhyrchion wedi'u llifio (nid coed tân) a fydd yn arwain at brosesu pellach
- cefnogi prosesu eilaidd pren caled a phren meddal o safon a dyfir yng Nghymru, a hynny ar raddfa andiwydiannol. Prosesu eilaidd yw melino byrddau sydd eisoes wedi'u llifio yn gydrannau ar gyfer gweithgynhyrchwyr neu adeiladwyr. Nid cynnyrch terfynol (e.e. darnau o ddodrefn) yw’r rhain, ond y cydrannau gorffenedig neu gydrannau wedi'u cafnu sy'n mynd i mewn iddynt. Enghreifftiau o gynhyrchion prosesu eilaidd yw cladin allanol, trawstiau, planciau gorffenedig (wedi’u plaenio), mowldinau a lloriau mewnol ac allanol

**Cefnogi busnesau Coedwigaeth Cymru i drosglwyddo tuag at sero net.**

Gellir cyflwyno ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys sy'n awyddus i wneud y canlynol:

- Lleihau'r defnydd o danwyddau ffosil, er enghraifft, trwy gynyddu’r defnydd o offer, peiriannau a cherbydau trydan nad ydynt yn gerbydau ffordd gyda gostyngiad cyfatebol i allyriadau.

Darllenwch reolau'r cynllun a'r canllawiau cyn cyflwyno cais. Mae'r cynllun yn un dewisol. Bob amser, swm y grant a gynigir fyddai’r isafswm gofynnol i ganiatáu i'r buddsoddiadau fynd yn eu blaenau.

Rhaid i fuddsoddiadau arfaethedig ddangos bod marchnad hyfyw wedi'i nodi ar gyfer eu cynnyrch (cynhyrchion) ac na fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb y grant.

Gall ymgeiswyr wneud mwy nag un cais fesul blwyddyn hawlio. Sylwer, os ydych chi'n cyflwyno sawl cais, rhaid cwblhau'r holl wybodaeth berthnasol bob tro, a byddant yn cael eu hasesu fel ceisiadau ar wahân, a fydd yn cystadlu â phob cais arall a fydd yn dod i law.

Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cyhoeddi drwy wefan Llywodraeth Cymru a, lle bo angen, byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol.

## ADRAN B: CYMHWYSTRA

Rhaid i ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yng Nghymru, a rhaid i'r cyfarpar a brynir gael ei ddefnyddio yng Nghymru'n bennaf. Mae'r cynllun yn agored i geisiadau gan:

- Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau) sy'n:
    - feithrinfeydd coed sy'n tyfu at ddibenion coedwigaeth, nid at ddibenion addurniadol yn unig, a/neu'n
    - ymwneud â gweithgareddau plannu a rheoli coedwigoedd, cynaeafu pren a/neu brosesu pren.
    - contractwyr coedwigaeth
- Unigolion sydd eisiau dechrau meithrinfa goed nad ydynt yn gallu gwneud hynny heb gymorth y grant.
- Unig fasnachwyr
- Cwmnïau cydweithredol
- Mentrau Cymdeithasol
- Perchnogion coedwigoedd preifat

**Diffiniad o BBaCh[1]**

Mae BBaCh yn fenter sy'n cyflogi llai na 250 o weithwyr (yn seiliedig ar gyfwerth ag amser llawn) ac sydd â throsiant blynyddol o lai na £44m neu'n hafal i'r swm hwnnw neu fantolen â chyfanswm sy'n llai na £38m neu'n hafal i'r swm hwnnw. Dylid trin staff rhan-amser a gweithwyr tymhorol fel ffracsiwn o rai cyfwerth ag amser llawn. D.S. Mae micro-fentrau (sydd â llai na 10 o weithwyr a throsiant blynyddol o dan £2m) wedi'u cynnwys o fewn y categori BBaChau.

**Cydweithio**

Gall ymgeiswyr weithio'n unigol neu'n gydweithredol. Rhaid i gymwysiadau cydweithredol fod o fudd i fwy nag un fenter. Ar gyfer prosiectau cydweithredol, rhaid i un ymgeisydd a enwir gymryd yr awenau a bod yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith y cytunwyd arno. Bydd yn atebol am unrhyw hawliad dilynol am ad-daliad pe bai hyn yn angenrheidiol.

Croesewir ceisiadau gan fusnesau newydd ond rhaid cwblhau'r templed achos busnes, a rhaid dangos effaith gadarnhaol y pryniant.

**Nid ydych yn gymwys os:**

- rydych chi'n gynhyrchydd cynradd o gynhyrchion amaethyddol (ac eithrio garddwriaeth, yn achos meithrinfeydd coed). Cyfeiriwch yn lle hynny at y cynlluniau eraill sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, gweler: Grantiau a thaliadau gwledig

  • cyrff y sector cyhoeddus e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol

[1] Gwybodaeth atodol: Diffiniad o Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau) (HTML) - GOV.UK

Cymrucyrff y sector cyhoeddus e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol yng Nghymru

**Costau cymwys**

Mae'r grant yn cael ei roi ar ffurf grant cyfalaf. Gall cymorth o dan y cynllun hwn gynnwys asedau diriaethol fel tir, adeiladau, peiriannau ac offer:

a) adeiladu, caffael neu wella eiddo ansymudol; mae tir ond yn gymwys i'r graddau nad yw'n fwy na 10% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi

b) prynu peiriannau ac offer hyd at werth marchnad yr ased

c) costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â gwariant y cyfeirir atynt ym mhwyntiau (a) a (b), megis ffioedd pensaer, peiriannydd ac ymgynghori, ffioedd sy'n ymwneud â chyngor ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd

d) caffael neu ddatblygu meddalwedd gyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach

Ffioedd ymgynghorwyr a phenseiri, costau dylunio technegol eraill, arolygon safle a ffioedd proffesiynol; ffioedd a chostau ceisiadau cynllunio. Mae ffioedd yr eir iddynt ar gyfer caniatâd, trwyddedau a chydsyniadau statudol hefyd yn gymwys hyd yn oed os ydynt wedi'u cwblhau a'u talu cyn cael eu cymeradwyo, ar yr amod eu bod yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r prosiect.

Mae cyfarpar ail-law yn gymwys lle gall yr ymgeisydd ddangos y canlynol:

- ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol
- mae'n addas i'r diben
- mae ganddo ddisgwyliad oes o o leiaf bum mlynedd ar ôl.

**Enghreifftiau o fuddsoddiadau posibl**

Bwriedir i'r rhestr ganlynol fod yn ddarluniadol, nid yn gynhwysfawr. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech gadarnhau cymhwysedd prosiect cyn datblygu cais, anfonwch eich ymholiad i pren.timber@gov.wales

- cyfarpar meithrinfeydd coed arbenigol gan gynnwys:
  - storio a thrin hadau, prosesu hadau, hau hadau ac offer paratoi gwelyau hadau
  - tyfwyr, peiriannau palu, rheolaeth fecanyddol ar chwyn, dyfrhau, offer tocio a thrawsblannu gwreiddiau
  - offer graddio, twneli poly a storfeydd oer a'r isadeiledd cysylltiedig fel siediau pacio neu storfeydd oer
  - systemau casglu dŵr glaw a dyfrhau
- offer paratoi'r tir e.e. cloddwyr arbennig, bwcedi, cribinau, erydr, ysgraffinwyr, peiriannau pentyrru parhaus, offer plannu a ffensio (megis offer taro pyst a pheiriannau i ddosbarthu rhwyll ffensys)
- cyfarpar ar gyfer lleihau effeithiau negyddol mamaliaid sy'n pori drwy reolaeth gynaliadwy e.e. seddi uchel a/neu ddulliau goddefol e.e. lleiniau cysgodi a llewys coed

- cyfarpar hwsmonaeth ar gyfer planhigfeydd ifanc, llifiau cadwyn, torwyr llysttyfiant, peiriannau torri gwair ar dir garw, chwistrellwyr a chyfarpar rheoli biolegol;
- cyfleusterau ar y safle ar gyfer ymolchi, toiledau a llesiant staff, gan gynnwys unedau lles symudol
- offer electronig modern ar gyfer mesur, monitro ac asesu ansawdd pren (i'w ddefnyddio mewn coedwig)
- llifiau cadwyn ar gyfer torri coed â llaw
- winshis ar gyfer echdynnu coed i'w defnyddio ar gloddiwr, llusgwr coed neu gludwr coed
- tyrau uchel/winshis/cerbydau casglu pren
- cynaeafwyr teneuo ar raddfa fach; diffinnir hyn fel peiriannau sydd â phwysau cerbyd gros o lai na naw tunnell, yn seiliedig ar y pwysau cerbyd gros a gyhoeddwyd gan y gwneuthurwyr.
- pennau cynaeafwyr teneuo (sy'n gallu torri hyd at 45 centimetr).
- cludwyr ar raddfa fach a systemau cludo cyfunol (diffiniad 'raddfa fach' yw peiriannau sydd â phwysau heb eu llwytho o chwe tunnell neu lai)
- trelars coedwigaeth pwrpasol, symudwyr mawr, dadlwythwyr, tractorau (at ddefnydd ar y safle yn unig)
- llusgwyr coed, gafaelion llusgo, winshis llusgo a chraeniau llusgo
- gafaelion, crafangau, gwelleifiau coed, pennau cynaeafu cronaduron biomas, cysylltiadau pwysau a chylchdrowyr
- tynwyr canghennau (ar safleoedd cynaeafu)
- cyfarpar trin deunyddiau, peiriannau bachyn codi/llwythwyr, systemau trin swmp a phren crwn, biniau a chyrff (i'w defnyddio ar y safle'n unig);
- cyfarpar trin boncyffion melinau llifo, rhawiau llwytho, deciau boncyffion, crafangau boncyffion, bwcedi, cribinau, peiriannau mewnfwydo a chludo boncyffion
- llifau torri lawr masnachol o bob math, peiriannau prosesu ar gyfer cynhyrchion dimensiynol wedi'u llifo
- cyfarpar trin rhisgl, slabiau pren a llwch lli, systemau echdynnu llwch
- peiriannau sglodion coed o faint masnachol, cynhyrchu sglodion i safonau ansawdd a gydnabyddir yn rhyngwladol, cyfarpar rheoli ansawdd sglodion coed
- chwythwyr sglodion pren a thanwydd ar ffurf pelenni arbenigol
- odynau sychu pren wedi'u llifio
- cyfarpar sychu deunyddiau, gwyntyllau, boeleri, hylosgwyr, sychwyr, cludyddion, biniau a lloriau cerdded (rhai sefydlog a symudol)
- systemau blociau tanwydd cywasgedig a systemau/llinellau cynhyrchu pelenni
- peiriannau tanwydd coed, prosesyddion, holltwyr, pwyswyr a bwndelwyr, cyfarpar mesur cynnwys lleithder
- meinciau llifio symudol neu feinciau llifio sefydlog bach ar gyfer prosesu cynradd coed sydd wedi'u cwympo
- cyfarpar graddio cryfder pren â llaw
- llifiau crynion neu gylchlifiau
- plaenwyr, trychwyr a mowldwyr
- peiriannau sandio ar wahân/peiriannau sandio drwm bwrdd

- systemau trin cynhyrchu a gweisg ar gyfer paneli glulam, brettstaple a chroes laminedig
- generaduron, offer cynhyrchu ac arbed pŵer, cysylltiadau grid
- Systemau TG, caledwedd a meddalwedd, i hwyluso unrhyw un o'r uchod

Dim ond offer sy'n cydymffurfio â'r holl ofynion iechyd a diogelwch perthnasol a safonau'r diwydiant fydd yn gymwys i gael grant.

Rhaid i'r holl offer cynaeafu arbenigol gael ei adeiladu yn ôl manyleb cynaeafu coedwigaeth a chydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch berthnasol.

Gweler y dogfennau canlynol gan Forest Research:

- Canllawiau diogelwch ar gyfer dewis peiriannau cynaeafu ac echdynnu ar raddfa fach a bach ar gyfer cynaeafu coedwigaeth: Canllawiau diogelwch ar gyfer dewis peiriannau cynaeafu ac echdynnu ar raddfa fach a bach ar gyfer cynaeafu mewn coedwig (FR_TDJR131). - Forest Research
- traileri pren hun-lwytho maint bach i ganolig: canllaw i'w defnyddio'n ddiogel (April 2019) A guide to safe use of small-to-medium-scale self-loading timber trailers (FR TDJR177)

Dylid cynnal hyfforddiant ar weithio'r holl offer a brynwyd yn ddiogel ac mae angen cyflwyno tystiolaeth o gwblhau'r hyfforddiant hwn gyda'ch hawliad am grant. Efallai y bydd cymorth tuag at gost hyfforddiant ar gael drwy Raglen Sgiliau Hyblyg Llywodraeth Cymru: Y Rhaglen Sgiliau Hyblyg | Busnes Cymru

Rhaid i gostau sy'n gysylltiedig â phrynu a/neu adnewyddu a/neu addasu unrhyw adeilad fod yn briodol i raddfa, natur a bwriad y prosiect. Ni ellir defnyddio grantiau at ddibenion caffael asedau cyfalaf nad ydynt yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r gweithgaredd cymwys arfaethedig.

### Costau Anghymwys

Mae'r eitemau canlynol yn enghreifftiau o wariant, nad ydynt yn gymwys i gael cymorth grant. Nid yw hon yn rhestr ddiffiniol, a bydd yr holl eitemau gwariant yn cael eu hystyried fesul achos.

- Prynu tir, gan gynnwys treuliau cysylltiedig, lle mae'r costau yn fwy na 10% o gyfanswm y buddsoddiad
- Prynu adeiladau sydd wedi cael eu defnyddio o'r blaen at yr un diben
- Unrhyw waith corfforol ar y safle a wnaed cyn dyddiad dechrau awdurdodedig y gwaith (mae unrhyw waith o'r fath a wneir yn golygu y gall y dyfarniad cyfan fod yn agored i gael ei ganslo)
- Gwaith dros dro nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithredu'r prosiect
- Prosiectau twristiaeth neu brosiectau hamdden ac adloniadol
- Buddsoddiadau i ddisodli eitemau a brynwyd yn flaenorol gyda chyllid cyhoeddus, megis cymorth grant yr UE neu Lywodraeth Cymru (ar gyfer yr un busnes).
- Amnewid offer ar sail debyg er bod uwchraddio i offer mwy effeithlon neu gapasiti mwy yn dderbyniol.
- Costau cynnal a chadw

- Buddsoddiadau mewn eitemau cyfalaf gyda chapasiti sy'n fwy na gofynion y fenter e.e. prynu erydr paratoi tir sydd at ddefnydd amaethyddol yn bennaf.
- Cynhyrchion nad oes modd dangos marchnad arferol realistig ar eu cyfer
- Uwchraddio eiddo a/neu offer i fodloni gofynion sy'n deillio o gamau gorfodi statudol.
- Prynu offer ar gyfer gweithgareddau prydlesu.
- Amnewidiadau o dan hawliad yswiriant.
- Buddsoddiadau nad ydynt wedi'u lleoli ar eiddo yr ymgeisydd.
- Buddsoddiadau ar gyfer manwerthu, gan gynnwys adeiladau ac offer a ddefnyddir ar gyfer gwerthiannau manwerthu
- Prynu cerbydau ar gyfer cludiant ffyrdd cyhoeddus (mae lorïau fforch godi, neu debyg, a ddefnyddir ar gyfer cludo a thrin mewnol sy'n gysylltiedig â choedwigaeth gynhyrchiol ar y safle a/neu yn y felin lifio, o fewn y goedwig a/neu safle busnes, yn gymwys)
- Nwyddau traul (eitemau sy'n cael eu dileu o fewn blwyddyn fel arfer).
- Offer swyddfa a dodrefn cyffredinol
- Cyfalaf gweithio
- TAW y gellir ei adennill
- Rhwymedigaethau wrth gefn
- Cynlluniau wrth gefn
- Gwariant tybiannol
- Costau refeniw, megis cyflogau staff allweddol; hyfforddiant ar gyfer cyfarwyddwyr a staff allweddol; presenoldeb mewn ffeiriau masnach; treuliau cyfarwyddwyr allanol
- Costau sy'n gysylltiedig â chontract prydlesu fel elw y prydleswr, cost ariannu llog, gorbenion a thaliadau yswiriant
- Costau trefnu cyfleusterau gorddrafft, benthyciadau neu offerynnau cymorth ariannol eraill gan gynnwys unrhyw ffioedd cysylltiedig neu daliadau eraill
- Gorbenion a ddyrannwyd neu a neilltuwyd ar gyfraddau sy'n sylweddol uwch na'r rhai a ddefnyddir ar gyfer unrhyw waith tebyg a wneir gan yr ymgeisydd
- Taliadau am weithgareddau o natur wleidyddol
- Dibrisiant, amorteiddiad a nam ar asedau a brynwyd gyda chymorth grant
- Taliadau llog
- Taliadau gwasanaeth sy'n deillio o brydlesi cyllid, trefniadau hurbwrcasu a chredyd
- Costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr
- Costau sy'n gysylltiedig â dirwyn cwmni i ben
- Taliadau am ddiswyddo annheg
- Taliadau i gynlluniau pensiwn preifat
- Taliadau ar gyfer pensiynau heb eu hariannu
- Iawndal am golli swydd
- Iawndal a dalwyd i drydydd partïon am ddifeddiant, cnydau heb eu cynaeafu, ac ati
- Dyledion drwg sy'n deillio o fenthyciadau i weithwyr, perchnogion, partneriaid, cyfarwyddwyr, gwarantwyr, cyfranddalwyr neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
- Taliadau am anrhegion a rhoddion
- Adloniant
- Dirwyon a chosbau statudol
- Trethi statudol (ac eithrio TAW na ellir ei adenill)

- Dirwyon ac iawndal troseddol
- Treuliau cyfreithiol mewn perthynas ag ymgyfreitha

Mae buddsoddiadau yn gymwys i gael cymorth grant dim ond pan fydd y gost wedi'i thalu'n gywir a rhoddwyd tystiolaeth o hyn gan yr hawlydd. Felly, nid yw costau llawn unrhyw offer a sicrhawyd o dan gytundeb prynu llogi neu brydles, neu unrhyw fath arall o drefniant ariannol, yn gymwys ar gyfer cymorth grant.

### Cyfradd a throthwy uchaf y grant

Uchafswm y dyfarniad grant yw £100,000 a'r isafswm yw £1,000.

Mae'r grant yn darparu uchafswm o 40% o gyfraniad tuag at fuddsoddiadau cyfalaf (ac eithrio TAW). Bydd y grant yn uchafswm o 40% o gyfraniad yn erbyn costau gwirioneddol yr anfonebir amdanynt.

## RHEOLI CYMORTHDALIADAU

Cymhorthdal Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yw’r grantiau a ddarperir o dan y cynllun hwn o dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022. Mae gan Gymorth Ariannol Lleiaf drothwy ariannol fel nad oes modd i unrhyw dderbynnydd gael mwy na £315,000 dros y cyfnod cymwys. Y cyfnod cymwys yw'r rhan o'r flwyddyn ariannol gyfredol (hynny yw, o 1 Ebrill) sydd wedi mynd heibio, a'r ddwy flynedd ariannol sydd wedi dod yn union o flaen y flwyddyn ariannol gyfredol. Ystyr y flwyddyn ariannol yw cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.

Mae'n ofynnol i dderbynwyr grant gadw cofnod ysgrifenedig o swm y cymhorthdal MFA a dderbyniwyd a'r dyddiad/au pan gafodd ei dderbyn. Rhaid cadw'r cofnod ysgrifenedig am o leiaf dair blynedd gan ddechrau gyda'r dyddiad y rhoddwyd y cymhorthdal MFA.

## DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS

Er mwyn i brosiect gael ei ddewis, rhaid iddo ddangos:

Yr angen am y gweithgaredd:

- mae'r allbynnau yn ofynnol a byddant yn cyflawni yn erbyn amcanion y cynllun
- mae'n ychwanegu at weithgarwch presennol yn ddiangen, ac ni fydd yn ei ddisodli nac yn ei ddyblygu’n ddiangen

Yr angen am gyllid:

- ni all fwrw ymlaen nawr heb gymorth
- nid yw'r costau'n ormodol ar gyfer natur y gweithgaredd dan sylw
- mae methiant yn y farchnad neu fwlch ariannu, lle bo'n berthnasol.

Y gallu i gyflawni:

- hyfywedd y busnes
- cydymffurfiaeth gyfreithiol

- hyfywedd ariannol y prosiect a chynaliadwyedd, gan gynnwys strategaeth ymadael
- cefnogaeth ac ymrwymiad rhanddeiliaid allweddol
- trefniadau rheoli prosiectau, monitro a gwerthuso.

Mae pob cais yn cael ei asesu ar ei werth posibl i'r economi wledig, i ba raddau y bydd y buddsoddiad yn datblygu'r busnes a'r potensial ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Po bwysicaf yw buddsoddiad y prosiect a'r cyfraniad y gall ei wneud i'r amcanion strategol, y mwyaf tebygol ydyw o gael ei argymell i gael ei ddewis.

**Gofynion allweddol**

- Ni fyddai'r Prosiect yn mynd yn ei flaen heb gymorth grant.
- Rhaid prynu'r holl eitemau yn unol â gofynion Tendro a Chaffael Cystadleuol Llywodraeth Cymru. Gweler Adran E am ragor o fanylion.
- Sicrhewch fod yr holl fuddsoddiadau wedi'u cwblhau ar yr adeg y byddwch yn cyflwyno'ch hawliad.
- Sicrhewch fod yr holl fuddsoddiadau ar y safle ar yr adeg y byddwch yn cyflwyno'ch hawliad.

Rhaid i geisiadau hefyd ddangos bod y canlynol wedi cael sylw:

**Caniatâd cynllunio**

Os oes angen cydsyniad cynllunio ar eich buddsoddiad, ni fydd unrhyw grant yn cael ei dalu hyd nes y bydd dogfennau cymeradwyo cynllunio wedi'u cyflwyno a'u gwirio gan Lywodraeth Cymru. Os yw'r awdurdod cynllunio o'r farn nad oes angen cydsyniad cynllunio ar y prosiect, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth gan yr awdurdod cynllunio i gadarnhau hyn.

**Cymeradwyaeth Corff Cymeradwyo (SAB) Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)**

Os oes angen cydsyniad SAB ar eich buddsoddiad, ni fydd unrhyw grant yn cael ei dalu nes y bydd dogfennau cymeradwyo cynllunio wedi'u cyflwyno a'u gwirio gan Lywodraeth Cymru.

I gael trosolwg o'r hyn sydd angen cymeradwyaeth SAB ac am ganllawiau manylach, ewch i wefan Llywodraeth Cymru yn: Systemau draenio cynaliadwy (SuDS): canllawiau https://www.llyw.cymru/systemau-draenio-cynaliadwy-suds-canllawiau.

Os yw'r awdurdod cynllunio o'r farn nad oes angen SuDS ar y prosiect, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth gan yr SAB i gadarnhau hyn. Er bod cymeradwyaeth SAB yn annibynnol ar gydsyniad cynllunio, bydd y dystiolaeth a gyflwynwch yn cael ei hasesu gan y tîm arfarnu mewn modd sy'n gyson â'i brosesau sy'n ymwneud â chydsyniad cynllunio.

Efallai na fydd angen cydsyniad cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol ar rai ceisiadau ar gyfer gwaith adeiladu sydd â goblygiadau draenio sydd angen cymeradwyaeth gan y SAB; er enghraifft, gwaith datblygu a ganiateir sy'n llai na 100 metr sgwâr. Felly, ni ddylid tybio y byddai diffyg gofyniad am gydsyniad cynllunio yn dileu'r angen am gymeradwyaeth gan SAB.

**Cydsyniadau Eraill**

Rhaid i chi sicrhau bod pob cydsyniad, trwydded a chaniatâd arall wedi'i roi lle bo angen.

Rhaid i chi sicrhau cydymffurfiaeth â safonau gofynnol a gofynion deddfwriaethol mewn perthynas â’r amgylchedd a'r holl safonau iechyd a diogelwch perthnasol.

## ADRAN C: SUT I WNEUD CAIS

Bydd y broses ymgeisio yn broses un cam. Bydd ceisiadau a gyflwynir yn cystadlu’n uniongyrchol â'i gilydd.

Bydd yr adrannau canlynol o'r cais yn cael eu hasesu a'u sgorio yn erbyn meini prawf dethol:

- ffit strategol
- addasrwydd y buddsoddiad
- cynaliadwyedd tymor hir
- gwerth am arian

Bydd ceisiadau sydd â’r sgôr uchaf yn cael eu dewis yn nhrefn eu teilyngdod ar bob Pwynt Penderfynu, hyd nes y bydd yr arian sydd ar gael wedi'i ddyrannu.

Bydd ceisiadau a ddewiswyd yn cael eu hasesu o ran eu cymhwysedd ac yn erbyn y pum maen prawf canlynol:

- cyflawni’r prosiect
- risg a rheoli risg
- themâu trawsbynciol
- dangosyddion a chanlyniadau
- ariannol a chydymffurfedd

**Cyflwyno cais**

Gellir anfon ymholiadau’n ymwneud â chymhwysedd o ran y cynllun i: **pren.timber@gov.wales**

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais wedi'i gwblhau'n gywir a bod yr wybodaeth a ddarperir i ategu eich prosiect yn gywir.

Rhaid i chi lenwi'r cais yn llawn a darparu dogfennaeth gynhwysfawr i ategu'r cais er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i asesu'r prosiect. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y canllawiau oherwydd gall methu â gwneud hynny oedi'r arfarniad.

Fel rhan o'ch cais, bydd gofyn i chi nodi pa un o'r meini prawf canlynol y mae'r eitem yn ymwneud â hi, a hynny ar gyfer pob eitem gyfalaf:

- datblygu menter sy'n bodoli eisoes

- sefydlu menter newydd
- datblygu menter sy’n bodoli eisoes, ychwanegu gwerth at gynnyrch neu sgil-gynnyrch amaethyddol - prosesu pren a gynhyrchir ar y fferm a/neu gynhyrchion coedwig nad ydynt yn rhai pren
- sefydlu menter newydd, ychwanegu gwerth at gynnyrch neu sgil-gynnyrch amaethyddol - prosesu pren a gynhyrchir ar y fferm a/neu gynhyrchion coedwig nad ydynt yn rhai pren
- datblygu menter arddwriaethol fasnachol sy’n bodoli eisoes
- sefydlu menter arddwriaethol fasnachol sy’n bodoli eisoes

Mae'r cynlluniau a'r dogfennau y mae'n rhaid i chi eu cwblhau a'u cyflwyno yn cynnwys:

- cynllun busnes (gweler y gofynion isod)
- 3 blynedd o gyfrifon ardystiedig. (Os nad yw cyfrifon ardystiedig ar gael ar gyfer y cyfnod ariannol diweddaraf, dylid cyflwyno cyfrifon rheoli ar gyfer y cyfnod hwn.)
- Rhagolygon ariannol 3 blynedd. (Dylid cyfrif am y buddsoddiad arfaethedig yn y rhagolygon ariannol.)
- tystiolaeth o’r cyllid sydd ar gael. (Benthyciad banc, gorddrafft, ac ati)
- 3 dyfynbris ar gyfer pob eitem fuddsoddi gyda chostau a anfonebwyd o £5,000 neu fwy. Dim ond 1 dyfynbris sydd ei angen ar gyfer eitemau sydd â chostau a anfonebir amdanynt o dan £5,000.
- cydsyniad cynllunio a chymeradwyaeth Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), lle bo hynny ar gael. Os nad oes gennych gydsyniad cynllunio neu SuDS, ond mae eu hangen er mwyn i'r prosiect fynd rhagddo, bydd angen tystiolaeth o gynllunio a chymeradwyaeth SuDS cyn y gellir prosesu unrhyw hawliad grant.

Os ydych yn sefydlu menter arddwriaethol newydd fel busnes annibynnol, ni fydd cyfrifon ardystiedig na chyfrifon rheoli ar gael.

### Gofynion cynllun busnes

Dylai'r cynllun busnes ddarparu amlinelliad cyfannol o'ch busnes. Dylai'r cynllun gwmpasu’r 3 blynedd nesaf o leiaf, a chynnwys y canlynol:

- manylion y busnes
- manylion yr adnoddau sydd ar gael, gweithgarwch y busnes
- perfformiad ariannol diweddar, gan gyfeirio at gyfrifon ardystiedig / cyfrifon rheoli a mantolenni a thystiolaeth o hyfywedd y busnes
- amcanion a chynigion buddsoddi ar gyfer y dyfodol.
- arfarnu ystyriaethau ac opsiynau’r cynnig ar gyfer y busnes a buddsoddi yn y dyfodol, hyfywedd ariannol y prosiect arfaethedig, a chynaliadwyedd, gan gynnwys strategaeth ymadael

Ni fydd yr asesiad yn dechrau hyd nes y bydd y cais, ynghyd â'r holl ddogfennaeth ategol, yn dod i law Llywodraeth Cymru. Gallwch ddarparu tystiolaeth a dogfennau eraill yn ogystal â’r uchod er mwyn ategu’ch cais.

**Asesiad ar gyfer dewis**

Bydd pob cais a gyflwynir i'r cynllun cyfalaf ‘Datblygu’r diwydiant pren yng Nghymru’ yn cael ei asesu yn erbyn set o feini prawf dethol a'i sgorio gan ddefnyddio graddfa sgorio o 0 – 4 a lluosir y sgôr hon wedyn â’r ffactor pwysoli cysylltiedig i roi sgôr derfynol.

Bydd y ceisiadau yn cael eu rhestru yn nhrefn teilyngdod. Bydd y ceisiadau’n cael eu dewis yn nhrefn eu teilyngdod ar bob Pwynt Penderfynu, hyd nes y bydd yr arian sydd ar gael wedi'i ddyrannu. Ni allwn warantu y caiff yr holl arian ei neilltuo, nac y bydd pob cais yn cael ei ddewis.

Mae manylion y meini prawf dethol wedi'u nodi isod.

| **Meini Prawf ar gyfer Dethol** | **Sgôr** | **Ffactor pwysoli** |
|---|---|---|
| Ffit strategol | 0 - 4 | x 4 |
| Addasrwydd y buddsoddiad | 0 - 4 | x 5 |
| Cynaliadwyedd tymor hir | 0 - 4 | x 2 |
| Gwerth am arian | 0 - 4 | x 3 |

Ni chaiff unrhyw gais fynd yn ei flaen os nad yw'n cael sgôr o 30 o leiaf, sef y trothwy ansawdd.

Bydd sgôr o 1 neu 0 (sero) yn unrhyw un o'r meini prawf dethol yn golygu na chaiff y cais fynd yn ei flaen i gael ei ystyried.

Ar gyfer pob adran, bydd yr asesiad yn cael ei wneud ar sail y wybodaeth a'r esboniadau a roddir.

Rhoddir sgoriau uwch am esboniadau cynhwysfawr sy’n cynnwys enghreifftiau o’r gweithgareddau arfaethedig a sut y caiff y gweithgareddau hynny eu rheoli.

Rhoddir sgoriau is am esboniadau sydd fawr gwell na datganiad syml o fwriad; er enghraifft “byddwn yn cynnal cyfarfodydd â rhanddeiliaid yn rheolaidd drwy gydol y prosiect”.

**Meini prawf ar gyfer dethol:**

**Ffit strategol**

Er mwyn i brosiect fodloni Ffit Strategol y cynllun, bydd angen i ymgeiswyr ddangos sut y bydd y buddsoddiad arfaethedig yn cyfrannu at nodau ac amcanion strategol y cynllun a dangos pam mae angen y buddsoddiad.

Bydd ymgeiswyr yn cael sgôr uwch os ydynt yn gallu dangos cysylltiadau clir rhwng y buddsoddiad a'r amcanion strategol, ac os ydynt yn cynnwys gwybodaeth fanwl am sut y penderfynwyd ar y flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi.

| **Sgôr** | |
|---|---|
| 4 | Rhoddir esboniad clir a thystiolaeth o sut mae'r buddsoddiad disgwyliedig yn ymateb i amcanion y cynllun. Rhoddir disgrifiad llawn a chynhwysfawr o'r prosiect. |
| 3 | Rhoddir tystiolaeth gref sy'n dangos sut mae'r buddsoddiad arfaethedig yn ymateb i amcanion y cynllun. Rhoddir disgrifiad llawn o'r prosiect. |
| 2 | Rhoddir tystiolaeth gref sy'n dangos sut mae'r buddsoddiad arfaethedig yn ymateb i amcanion y cynllun. Rhoddir disgrifiad o'r prosiect. |
| 1 | Nid yw'r dystiolaeth sy'n cael ei darparu yn dangos yn llawn sut mae'r buddsoddiad arfaethedig yn ymateb i amcanion y cynllun. Ceir bylchau yn y disgrifiad o'r prosiect. |
| 0 | Ni ddarperir unrhyw dystiolaeth i ddangos sut mae'r buddsoddiad yn cyflawni amcanion y cynllun. |

**Addasrwydd y buddsoddiad**

Mae defnyddio adnoddau yn effeithlon yn hollbwysig er mwyn helpu i sicrhau economi Lesiant, yn ogystal â lleihau allyriadau. Er mwyn i brosiect allu bodloni'r meini prawf hyn, gofynnir i ymgeiswyr ddangos sut y bydd eu buddsoddiad arfaethedig yn helpu'r busnes i dyfu'n gynaliadwy a, lle bo'n briodol, egluro sut bydd y buddsoddiad yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, gan gynnwys gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer, cynyddu lefelau atafaelu a storio carbon, lleihau allyriadau a gwella ecosystemau coedwigoedd.

| Sgôr | |
|---|---|
| 4 | Rhoddir esboniad clir, gan gynnwys tystiolaeth o sut mae’r buddsoddiad sydd mewn golwg yn ymateb i’r newid yn yr hinsawdd. Mae'r cais yn dangos sut mae'r buddsoddiad yn gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer. Mae tystiolaeth yn dangos bod y buddsoddiad yn cynyddu lefelau atafaelu a storio carbon, gan leihau allyriadau a gwella ecosystemau coedwigoedd. |
| 3 | Rhoddir tystiolaeth gref sy’n dangos sut mae’r buddsoddiad sydd mewn golwg yn ymateb i’r newid yn yr hinsawdd. Mae'r cais yn manylu ar sut mae'r buddsoddiad yn gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer. Mae’r buddsoddiad yn cyfrannu at gynyddu lefelau atafaelu a storio carbon, lleihau allyriadau a gwella ecosystemau coedwigoedd. |
| 2 | Mae rhywfaint o dystiolaeth yn cael ei darparu i ddangos sut mae’r buddsoddiad sydd mewn golwg yn ymateb i’r newid yn yr hinsawdd. Mae’r cais yn darparu manylion cyfyngedig o sut mae’r buddsoddiad yn gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer. Mae’r buddsoddiad yn cyfrannu ychydig at wella lefelau atafaelu a storio carbon, lleihau allyriadau a gwella ecosystemau coedwigoedd. |
| 1 | Mae’r dystiolaeth sydd wedi’i darparu i ddangos sut mae’r buddsoddiad sydd mewn golwg yn ymateb i’r newid yn yr hinsawdd yn wan neu’n annigonol. Nid yw’r cais yn nodi sut mae’r buddsoddiad yn gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer. Nid yw’r buddsoddiad yn cyfrannu at gynyddu lefelau atafaelu a storio carbon, lleihau allyriadau a gwella ecosystemau coedwigoedd. |
| 0 | Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi’i darparu i ddangos sut mae’r buddsoddiad yn ystyried yr effaith ar yr amgylchedd. |

**Cynaliadwyedd tymor hir**

Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy’n dod â manteision a sicrwydd ariannol hirdymor i’r busnes. Rhoddir sgôr uchel i geisiadau sy'n dangos y daw manteision cyson i’r busnes ac sy’n creu cyfleoedd gwaith – sef creu swyddi ychwanegol â thâl a diogelu swyddi presennol. Hefyd, gallai buddsoddiadau ddiogelu’r busnes at y dyfodol, gan sicrhau bod gweithgarwch yn gallu parhau mewn ymateb i bwysau’r farchnad neu bwysau amgylcheddol ar hyn o bryd neu rai sy’n dod i’r amlwg yn y dyfodol.

Bydd prosiectau sy’n sbarduno rhagor o fuddsoddiadau, e.e. datblygu isadeiledd i hwyluso rhagor o gynhyrchu sy’n arwain at gynhyrchion uwch eu gwerth, yn cael

sgôr uwch. Os yw buddsoddiad yn rhan o gynllun buddsoddi fesul cam, mae angen nodi hynny.

| Sgôr | |
|---|---|
| 4 | Rhoddir esboniad clir, sy’n cynnwys tystiolaeth, o sut mae’r buddsoddiad sydd mewn golwg yn dod â manteision a sicrwydd ariannol hirdymor i’r busnes.<br><br>Mae’r buddsoddiad yn creu swyddi ychwanegol. Hefyd, bydd yr ymgeisydd yn dangos sut mae’r buddsoddiad yn sbarduno rhagor o ddatblygiad a buddsoddiad yn y busnes yn y tymor byr. |
| 3 | Rhoddir tystiolaeth gref sy’n dangos sut mae’r buddsoddiad sydd mewn golwg yn dod â manteision a sicrwydd ariannol hirdymor i’r busnes. Mae swyddi presennol yn cael eu diogelu. Mae'r ymgeisydd yn dangos sut mae’r buddsoddiad yn sbarduno rhagor o ddatblygiad a buddsoddiad yn y busnes yn y tymor canolig. |
| 2 | Mae rhywfaint o dystiolaeth yn cael ei darparu i ddangos sut mae’r buddsoddiad sydd mewn golwg yn dod â manteision a sicrwydd ariannol hirdymor i’r busnes. Ceir rhywfaint o dystiolaeth i ddangos sut mae’r buddsoddiad yn sbarduno rhagor o ddatblygiad a buddsoddiad posibl yn y busnes yn yr hirdymor. |
| 1 | Mae’r dystiolaeth sydd wedi’i darparu i ddangos sut mae’r buddsoddiad sydd mewn golwg yn dod â manteision a sicrwydd ariannol hirdymor i’r busnes yn wan neu’n annigonol. Nid yw’r prosiect yn creu unrhyw swyddi newydd ac nid yw’n diogelu swyddi presennol. Nid yw’r ymgeisydd wedi dangos sut mae’r buddsoddiad yn sbarduno rhagor o ddatblygiad a buddsoddiad yn y busnes. |
| 0 | Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi’i darparu i ddangos bod y buddsoddiad yn cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd hirdymor y busnes. |

### Gwerth am arian

Mae'n ofynnol i brosiectau ddangos eu bod yn rhoi gwerth am arian. Bydd prosiectau yn cael sgôr ar sail yr effaith a ragwelir ar broffidioldeb a ddisgwylir o fewn tair blynedd ar ôl cwblhau'r prosiect.

Gallai hynny fod o ganlyniad i gynnydd yn yr allbwn a’r trosiant, gan arwain at fwy o elw, neu o ganlyniad i brosesau cynhyrchu mwy effeithlon sy'n arwain at fwy o elw er bod yr allbwn a’r trosiant yn aros yr un fath.

Bydd yr asesiad o'r gwerth am arian yn seiliedig ar y cynnydd a ragwelir mewn proffidioldeb o fewn tair blynedd ar ôl cwblhau'r prosiect (a), wedi'i rannu â gwerth y grant y gofynnwyd amdano (b).

e.e. 5.0 fyddai gwerth (a/b) prosiect sy'n rhagweld cynnydd blynyddol yn ei elw o £100,000 o fewn tair blynedd ar ôl cwblhau'r prosiect ac sy'n gofyn am grant o £20,000. Gwerth (a/b) o 1.25 fyddai gan brosiect sy'n rhagweld cynnydd yn ei elw o £50,000 o fewn tair blynedd ar ôl cwblhau'r prosiect ac sy'n gofyn am grant o £40,000.

Bydd gwerthoedd (a/b) holl brosiectau'r cyfnod yn arwain at ddyrannu sgôr fel y dangosir isod:

| | **Sgôr** |
|---|---|
| Cynnydd a ragwelir mewn elw/grant (a/b) 1.6 neu fwy | 4 |
| Cynnydd a ragwelir mewn elw/grant (a/b) rhwng 1.1 a 1.5 | 3 |
| Cynnydd a ragwelir mewn elw/grant (a/b) rhwng 0.5 a 1.0 | 2 |
| Cynnydd a ragwelir mewn elw/grant (a/b) rhwng 0.1 a 0.4 | 1 |
| Cynnydd a ragwelir mewn elw/grant (a/b) llai na 0 | 0 |

.

**Arfarnu'r cais ar ôl iddo gael ei ddewis**

Os caiff ei ddewis, bydd y cais yn symud ymlaen i'r cam pan gaiff y canlynol eu hasesu, a hynny er mwyn cwblhau'r gwaith o arfarnu'r cais ac ystyried cynnig grant:

- cyflawni'r prosiect
- risg a rheoli risg
- ariannol a chydymffurfedd
- dangosyddion a chanlyniadau
- Themâu trawsbynciol

Y dangosyddion a'r canlyniadau a fydd yn cael eu monitro o ganlyniad i'r buddsoddiad yw:

1. Nifer y busnesau a gânt eu cefnogi
2. Nifer y busnesau newydd a gânt eu sefydlu

3. Nifer y swyddi a gânt eu creu
4. Nifer y swyddi a gânt eu diogelu
5. Cynnydd yn y gwerth ychwanegol gros (GVA)
6. Nifer y darnau o offer a/neu beiriannau a brynwyd
7. Arwynebedd y gwaith cynhyrchu meithrinfa goed yn yr awyr agored (Nodwch y rhywogaethau)
8. Arwynebedd y gwaith cynhyrchu meithrinfa goed dan do (Nodwch y rhywogaethau)
9. Gwerth cilowat cynhyrchiant ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod (Nodwch y dechnoleg adnewyddadwy)
10. Cyfaint y capasiti casglu dŵr glaw a osodir
11. Arwynebedd y coetir a ddefnyddir er budd economaidd yn dilyn y buddsoddiad.
12. Cyfaint y pren y caiff ei ddwyn i ymyl y ffordd yn dilyn y buddsoddiad
13. Cyfaint y sgil-gynnyrch a brosesir yn dilyn y buddsoddiad

Bydd y cais hefyd yn gofyn i chi egluro sut y bydd eich prosiect yn cyfrannu at themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru, sef:

- Cyfle cyfartal a phrif ffrydio Rhywedd
- Mynd i'r afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol
- Y Gymraeg

Bydd y cais yn cael ei werthuso yn unol â Chanllawiau'r Cynllun a'r rheolau cymhwysedd. Bydd yn destun diwydrwydd dyladwy llawn (lle bo angen), arfarnu a gwiriadau cymhwysedd, a dim ond ar yr adeg honno y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud i gynnig grant neu wrthod y cais. Nid oes unrhyw warant y bydd cynnig prosiect yn cael ei gymeradwyo ar gyfer grant. Byddwn yn ceisio cwblhau’r gwaith o arfarnu’r cais cyn pen 90 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod ymgeisio. Efallai y bydd angen mwy o amser i arfarnu ceisiadau cymhleth. Os ydych yn araf yn ymateb i geisiadau am ragor o wybodaeth, bydd yn cymryd mwy o amser i ni gwblhau’r gwaith o arfarnu’ch cais.

**Sgorio asesiadau**

Ar gyfer y gwaith arfarnu, bydd yr wybodaeth sy’n cael ei darparu yn yr adrannau sy’n weddill yn cael ei hasesu yn erbyn y meini prawf sgorio canlynol a fydd yn llywio’r penderfyniad i roi cymorth grant i’r prosiect ai peidio:

- Uchel: Mae’r ymgeisydd wedi rhoi ymatebion trylwyr a manwl o ran yr holl dystiolaeth y gofynnir amdani
- Canolig: Mae’r ymgeisydd wedi rhoi ymatebion boddhaol a manwl o ran y rhan fwyaf o’r dystiolaeth y gofynnir amdani

- Isel: Mae’r ymgeisydd wedi rhoi ymatebion anghyflawn neu annigonol o bosibl o ran un neu fwy o’r darnau o dystiolaeth y gofynnir amdani.

Y trothwy ansawdd yw sgôr Canolig ym mhob un o’r naw categori. Os nad yw’r cais yn bodloni’r gofyniad hwn, mae’n bosibl y gofynnir i chi ddarparu rhagor o wybodaeth. Os nad oes modd cyflawni sgôr Canolig, bydd y prosiect yn cael ei wrthod.

Sylwer, os oes angen rhagor o wybodaeth, gall hyn oedi’r gwaith o arfarnu’r cais, felly rydym yn argymell eich bod yn dilyn y canllawiau yn ofalus er mwyn darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad yr arfarniad gan ddefnyddio’r cyfeiriad e-bost cyswllt a roddwyd gennych yn eich cais.

**Mae tri chanlyniad posibl i’r arfarniad:**

1. Mae eich prosiect yn gymwys, ac/neu yn methu â bodloni'r trothwy gofynnol ar gyfer dethol prosiectau, ac nid yw'n cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad grant. Byddwch yn cael gwybod am y rhesymau pam nad oedd eich cais yn llwyddiannus. Gallwch wneud cais eto gyda'r un prosiect, yn ystod cyfnod ymgeisio agored (gan ddiwygio'r cais os dymunwch), ond dim ond os nad ydych wedi dechrau unrhyw waith ar y prosiect.
2. Mae eich cais yn gymwys ac yn bodloni'r trothwy gofynnol; fodd bynnag, nid wedi cael sgôr ddigon uchel i gael ei ddewis ar gyfer dyfarniad grant. Byddwch yn cael gwybod nad ydych wedi cael eich dewis, ond bydd eich cais yn cael ei gadw wrth gefn.
3. Mae eich prosiect yn gymwys, mae’n bodloni'r trothwy gofynnol ar gyfer dethol prosiectau ac mae’n cael ei gymeradwyo i gael dyfarniad grant. Byddwch yn cael Llythyr Dyfarnu Grant yn nodi telerau ac amodau'r dyfarniad, a gofynnir i chi eu derbyn fel cytundeb eich bod yn derbyn y telerau ac amodau Hefyd, bydd y Llythyr Dyfarnu Grant yn rhoi’r awdurdod i chi ddechrau'r gwaith. Rhaid i chi dderbyn neu wrthod y Dyfarniad Grant cyn pen 30 diwrnod. Os na fyddwch yn derbyn y Dyfarniad Grant cyn pen 30 diwrnod, caiff y Dyfarniad Grant ei dynnu’n ôl.

Os ydych chi’n penderfynu tynnu yn ôl o’r Dyfarniad Grant cyn cwblhau’r prosiect, neu os nad ydych yn prynu’r holl eitemau a gymeradwywyd yn eich Llythyr Dyfarnu Grant, ni fyddwch yn gallu gwneud cais i gynllun grantiau cyfalaf ‘Datblygu’r diwydiant pren yng Nghymru’ yn y cylch nesaf, ac mae’n bosibl y bydd gofyn i chi ad-dalu unrhyw arian sydd wedi’i dalu i chi.

Gallwch dynnu eich cais yn ôl ar unrhyw adeg cyn i Lythyr Dyfarnu Grant gael ei ddyfarnu heb iddo effeithio ar unrhyw geisiadau yn y dyfodol ar gyfer cynllun grantiau cyfalaf ‘Datblygu’r diwydiant pren yng Nghymru’.

Yn ddarostyngedig i ofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004: bydd yr holl wybodaeth a roddir i Lywodraeth Cymru yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn cadw’r hawl i gyhoeddi enw eich cwmni, cyfanswm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o’ch prosiect.

## ADRAN D: AMODAU'R GRANT

Mae cynllun grant cyfalaf Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru yn amodol ar amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol (gweler Adran L). Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd/derbynnydd weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth hon.

Mae'r cynnig o grant cyfalaf Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru yn cael ei wneud yn amodol ar delerau ac amodau, a fydd yn cael eu nodi yn llawn yn eich Llythyr Dyfarnu Grant, gan gynnwys y telerau ac amodau a nodir isod. Bydd cyfnod y Dyfarniad Grant yn dechrau ar ddyddiad cyhoeddi'r llythyr. Gallai methu â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ganslo'ch dyfarniad a/neu adennill y symiau sydd eisoes wedi'u talu i chi, neu leihau cyfanswm y grant sy'n daladwy.

**Amodau:**

Mae'r dyfarniad yn cael ei wneud ar sail datganiadau a wnaed gennych chi neu eich cynrychiolwyr yn y ffurflen gais, y ffurflen hawlio ac mewn unrhyw ohebiaeth ddilynol. Mae'n drosedd gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol.

Rhaid i chi beidio â dechrau unrhyw waith ar y prosiect heb gael awdurdod ysgrifenedig yn gyntaf gan Lywodraeth Cymru. Mae'n rhaid eich bod wedi prynu'r offer a chysylltu â Llywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio a nodir yn y Llythyr Dyfarnu Grant. Os nad ydych wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru erbyn y dyddiad hwn, bydd y cynnig grant yn cael ei wrthod yn awtomatig.

Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddiweddaru'r rheolau a'r amodau er mwyn ystyried newidiadau i ofynion deddfwriaethol y DU, gan gynnwys Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol a osodir ac â chyfraith y DU.

Ni ellir gwneud unrhyw newidiadau i'r prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgaredd, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

Rydych yn cytuno i gydymffurfio ag unrhyw newidiadau yn dilyn hysbysiad gan Weinidogion Cymru.

Ni chewch waredu, trosglwyddo neu werthu offer a brynwyd gyda chymorth grant yn ystod y prosiect ac am bum mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y Llythyr Dyfarnu Grant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru. Rhaid ad-dalu'r grant a ddyfarnwyd yn llawn.

Rhaid i chi ddarllen a deall rheolau a chanllawiau perthnasol y cynllun.

Mae'r manylion rydych wedi'u rhoi yn y ceisiadau ac mewn unrhyw ddogfennau ategol yn wir, yn gywir ac yn gyflawn, hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred.

Rydych yn cydnabod na fydd Llywodraeth Cymru, nac unrhyw gynghorydd a benodir gan Lywodraeth Cymru, yn gyfrifol am unrhyw gyngor a roddir, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, unrhyw gyngor a roddir mewn perthynas â'r cais, ac mai chi yn unig sy'n gyfrifol am yr holl benderfyniadau busnes a wneir.

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r rheolau ar gostau cymwys fel y'u nodir yng nghanllawiau'r Cynllun.

Rhaid cwblhau prosiectau yn unol â’r amserlen y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni ddylech newid yr amserlen hon heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno trwy ffurflen gais hawlio grant Llywodraeth Cymru, fydd yn cael ei anfon atoch wedi i Lywodraeth Cymru dderbyn eich derbyniad wedi ei lofnodi o’r Llythyr Dyfarnu Grant, ac mae’n rhaid cynnwys yr holl ddogfennau ategol sy’n angenrheidiol o dan y cynllun.

Dim ond ar gyfer gwariant sydd wedi'i dalu y gellir rhoi'r grant, hynny yw, taliadau sydd wedi’u clirio o gyfrif banc.

Rhaid prynu pob eitem yn unol â gofynion Caffael a Thendro Cystadleuol Llywodraeth Cymru.

Rydych yn ymrwymo i fodloni unrhyw rwymedigaethau mewn perthynas â sicrhau caniatâd cynllunio, yn ôl yr angen.

Mae’n rhaid i chi gadarnhau nad oes unrhyw eitemau sydd wedi’u cynnwys yn y cais yn cymryd lle eitemau dan hawliad yswiriant.

Mae’n rhaid i chi roi cadarnhad nad ydych wedi gwneud cais am unrhyw arian cyhoeddus arall. Os yw’n dod i’r amlwg eich bod wedi derbyn cyllid cyhoeddus o ffynhonnell arall, gall hynny arwain at wrthod eich hawliad, adennill taliadau a chyflwyno cosbau.

Rhaid cadw cofnodion yn ymwneud â’r cais a’r hawliad am y grant hwn, gan gynnwys pob anfoneb wreiddiol ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill, am o leiaf pum mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y prosiect.

Rhaid i chi ymrwymo i fodloni unrhyw rwymedigaethau statudol megis Iechyd a Diogelwch; cyflogaeth; hylendid; rheoli a diogelu’r amgylchedd sy’n berthnasol yn ystod cyfnod y prosiect hwn.

Mae’n rhaid i chi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu eu cynrychiolwyr, fynd ar y tir a'i archwilio, ac archwilio unrhyw offer perthnasol. Ar gais, rhaid i chi ddarparu gwybodaeth a/neu fynediad at ddogfennau gwreiddiol mewn perthynas â’r prosiect.

Mae gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn berthnasol i’r wybodaeth a gyflwynir yn y cais ac mewn dogfennau cysylltiedig.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn cadw’r hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu gwmni, cyfanswm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o’ch prosiect.

Mae’r Hysbysiad Preifatrwydd yn berthnasol i’r wybodaeth a gyflwynir yn y cais. Mae’r Hysbysiad Preifatrwydd yn esbonio’r modd y bydd Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio eich data personol, a'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

## ADRAN E: CAFFAEL A THENDRO CYSTADLEUOL

Rhaid i chi ddilyn canllawiau a gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer Caffael a Thendro Cystadleuol. Mae canllawiau ar gael trwy'r ddolen ganlynol: **Grantiau gwledig: canllawiau tendro cystadleuol**

## ADRAN F: TALIADAU

**Hawliadau**

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen Hawlio Grantiau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i wneud cais i'r Cynllun Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru. Bydd taliad yn cael ei wneud ar ôl dilysu'ch hawliad yn llwyddiannus. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi'i wneud a bod y gwaith wedi'i gwblhau yn unol â'r cynllun y bydd hawliadau'n cael eu talu. Bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.

Gallwch gyflwyno mwy nag un hawliad, ond rhaid i bob hawliad fod ar gyfer eitem gyfan. Er enghraifft, os ydych wedi derbyn Llythyr Dyfarnu Grant i brynu dwy eitem, cyfarpar casglu dŵr a pheiriant casglu, gallwch gyflwyno hawliadau ar wahân ar gyfer y ddwy eitem, ond ni allwch gyflwyno hawliad ar gyfer rhan o gost un eitem.

Er mwyn derbyn taliadau'r Cynllun Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru, rhaid i chi:

- fod wedi derbyn Dyfarniad Grant cynllun cyfalaf Cynllun Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru o fewn 30 diwrnod calendr i ddyddiad y cynnig, a chydymffurfio â'r holl ofynion
- sicrhau nad ydych wedi prynu'r eitemau a restrir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant nes r ôl i chi gael cynnig dyfarniad grant
- sicrhau eich bod wedi prynu'r holl eitemau a restrir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant cyn 31 Mawrth 2027
- sicrhau bod yr holl eitemau yn cael eu prynu yn unol â gofynion Caffael a Thendro Cystadleuol Llywodraeth Cymru
- sicrhau bod yr holl eitemau rydych wedi'u prynu ar y safle adeg cyflwyno'ch hawliad
- cyflwyno'r hawliad gan ddefnyddio'r ffurflen Hawlio Grant erbyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio - 31 Mawrth 2027
- cyflwyno anfonebau ar gyfer pob eitem yn yr hawliad
- cyflwyno tystiolaeth o wariant ar gyfer pob eitem yn yr hawliad
- cyflwyno ffotograffau â geotag o'r eitemau ar eich safle
- cyflwyno tystiolaeth o ganiatâd cynllunio a chymeradwyaeth SuDS os oes angen

Nid yw hawliad yn cael ei ystyried yn hawliad dilys os nad yw wedi'i gyflwyno trwy'r dudalen Hawlio Grantiau a hyd nes y bydd yr holl ddogfennau ategol wedi'u cyflwyno.

Gallwch gyflwyno’ch hawliad unrhyw adeg ar ôl cwblhau’r buddsoddiad, ond rhaid i chi ei gyflwyno cyn y dyddiad cau.

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir rhoi estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer hawlio a rhaid cyflwyno cais ysgrifenedig am estyniad drwy ebost at pren.timber@llyw.cymru cyn gynted â phosib a cyn y dyddiad cau ar gyfer hawlio

**Dogfennau ategol**

**Mae'n rhaid i chi gyflwyno'r canlynol gyda'ch hawliad:**

- Tystiolaeth bod y gwariant wedi cael ei wneud ar gyfer pob eitem yn yr hawliad.
- Anfonebau ar gyfer pob eitem yn yr hawliad.
- Ffotograffau â geotag o'r eitemau ar eich safle.

Heb dystiolaeth, bydd yr hawliad yn cael ei wrthod.

Rhowch y gair ‘anfoneb’ yn glir ar bob anfoneb a rhaid iddi gynnwys y canlynol:

- rhif adnabod unigryw
- enw, cyfeiriad a manylion cyswllt eich cwmni
- enw a chyfeiriad y cwmni sy'n eich anfonebu
- disgrifiad clir o'r hyn y codir tâl arnoch amdano
- dyddiad darparu'r nwyddau neu'r gwasanaeth (dyddiad cyflenwi)
- dyddiad yr anfoneb
- y swm/symiau a godir
- swm TAW os yw'n berthnasol
- y cyfanswm sy'n ddyledus

Mae angen cynnwys cyfriflenni banc fel prawf o daliadau. Os nad yw gwerth y trafodiad yn cyfateb i werth yr anfoneb (er enghraifft, os ydych wedi prynu eitemau gan yr un cyflenwr nad ydynt yn ymwneud â'r prosiect) bydd angen dadansoddiad o'r taliad cyfan gydag anfonebau ategol.

Os ydych yn talu â siec, bydd angen sgan neu ffotograff o'r siec ysgrifenedig, cyn ei chyflwyno i'r cyflenwr, yn ogystal â'r gyfriflen banc.

Mae ffotograff â geotag yn cynnwys gwybodaeth am y lleoliad o fewn data'r ffotograff. Bydd y rhan fwyaf o ffonau symudol sydd â chysylltiad â'r rhyngrwyd a chamera yn cofnodi'r cyfesurynnau GPS yn awtomatig. Byddan nhw hefyd yn cofnodi dyddiad ac amser tynnu'r ffotograff.

Bydd canllawiau manwl ar y ffotograffau â geotag sydd eu hangen a sut i’w cyflwyno i'r cynllun grant cyfalaf Datblygu’r Diwydiant Pren yng Nghymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn ystod y cam hawlio.

Gallwch gyflwyno’r anfonebau a'r dystiolaeth o daliadau trwy eu sganio a’u hanfon trwy ebost at pren.timber@llyw.cymru.

**Cam-hawlio a chosbau**

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr hawliad a gyflwynir yn gymwys ac yn gywir, ei fod ar gyfer gwariant sydd wedi'i wneud yn unig (bod yr arian wedi gadael eich cyfrif banc), bod yr holl eitemau a chostau'n gymwys, a bod yr hawliad yn cael ei gyflwyno yn brydlon.

Mae'n rhaid bod yr holl eitemau a gymeradwywyd wedi cael eu prynu ar ôl cynnig y Llythyr Dyfarnu Grant.

Byddwch yn cam-hawlio yn y sefyllfaoedd canlynol:

- rydych wedi prynu eitemau buddsoddi cyn cynnig y Llythyr Dyfarnu Grant
- nid ydych wedi prynu'r holl eitemau a restrir yn y Llythyr Dyfarnu Grant
- rydych wedi prynu eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn eich Llythyr Dyfarnu Grant
- nid ydych wedi cyflwyno hawliad a dogfennau ategol erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno hawliad
- nid yw'r holl eitemau rydych wedi'u hawlio yn bresennol ar eich daliad yn ystod ymweliad â'ch safle

Rhaid i chi hawlio am yr holl eitemau a restrir yn eich Llythyr Dyfarnu Grant.

Os nad ydych wedi hawlio pob eitem, bydd y dyfarniad grant yn cael ei derfynu a gellir adennill unrhyw daliadau sydd wedi cael eu gwneud.

Os penderfynir bod swm yr eitemau anghymwys yn fwy na 10% o'r costau cymwys, caiff swm sy'n gyfwerth â'r eitemau anghymwys ei dynnu o'ch taliad.

Os oes gennych unrhyw amheuon am unrhyw beth fydd ei angen arnoch ar gyfer eich prosiect, mae'n hanfodol eich bod yn gofyn am gadarnhad ysgrifenedig o'i gymhwystra cyn i chi ysgwyddo'r costau.

**Troseddau**

Mae rheoliad 13 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 (Rhif 3222 (Cy.327)) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag elfennau penodol o gyllid datblygu gwledig. Mae'r Rheoliad hwnnw a'r troseddau hynny yn berthnasol i'r cynllun grant cyfalaf Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru. Mae enghreifftiau o droseddau yn cynnwys darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, yn fwriadol neu'n ddi-hid, mewn perthynas â chyllid datblygu gwledig, rhwystro arolygydd neu swyddog, a gwrthod darparu gwybodaeth ar gais.

## ADRAN G: NEWIDIADAU I REOLAU'R CYNLLUN

**Newidiadau mewn Deddfwriaeth (gan gynnwys Newidiadau mewn Dehongli)**

Gall deddfwriaeth newid o dro i dro, a bydd yn ofynnol i chi gydymffurfio ag unrhyw newidiadau i reolau'r cynllun yn dilyn hysbysiad gan Lywodraeth Cymru.

### Newidiadau i reolau'r cynllun neu'r llythyr dyfarnu grant

Mae'n bosibl y bydd angen i ni wneud newidiadau i reolau'r cynllun a/neu eich Llythyr Dyfarnu Grant am nifer o resymau. Er enghraifft, efallai y bydd angen i ni ddiweddaru'r amodau rheoli ar sail y cyngor gwyddonol diweddaraf, neu ddiwygio rheolau'r cynllun er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth. Byddwn yn cyhoeddi newidiadau ar **wefan Llywodraeth Cymru** ac yn cysylltu â chi'n uniongyrchol os oes angen.

## ADRAN H : MESURAU RHEOLI, MONITRO A CHADW COFNODION

### Mesurau Rheoli

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru orfodi rheolau'r cynllun grant cyfalaf Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru.

Gall eich hawliad gael ei ddewis ar gyfer ymweliad i gadarnhau bod y buddsoddiad wedi'i wneud cyn gwneud y taliad i chi neu fe allai gael ei ddewis ar gyfer ymweliad ar ôl i chi dderbyn y taliad.

Bydd yr holl fanylion yn eich cais, y manylion yn eich hawliad a'r datganiadau a wnaethoch wrth gyflwyno'r cais a'r hawliad yn cael eu gwirio.

Bydd Llywodraeth Cymru a'r cyrff rheoli arbenigol yn ceisio sicrhau nad yw ymweliadau'n tarfu arnoch yn ormodol, ond mae angen ymweliadau dirybudd ar gyfer rhai gwiriadau, sy'n golygu na fydd modd rhoi rhybudd i chi o bosibl. Mae'n bosibl y byddwch yn cael mwy nag un ymweliad yn ystod blwyddyn galendr.

Os ydych yn gwrthod caniatáu ymweliad, yn rhwystro swyddog neu'n methu â rhoi cymorth rhesymol, mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod eich talu, y gallwn ofyn ichi dalu arian sydd wedi'i dalu i chi yn ôl ac fe allech gael eich erlyn.

### Monitro

Mae'n rhaid monitro pob dyfarniad grant a gwerthuso effaith y grant ar y busnes ar ôl cwblhau'r prosiect.

Mae'n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru, neu eu cynrychiolwyr, archwilio'r eitemau a brynwyd yn ystod y cyfnod pum mlynedd hwn.

Bydd ymweliadau â safleoedd yn cael eu cynnal ar gyfer canran o'r prosiectau a gymeradwywyd ar ôl cwblhau'r prosiect (Dyddiad Cwblhau Prosiect) er mwyn sicrhau bod yr ymgeisydd yn parhau i fod yn berchen ar yr offer a brynwyd gyda'r grant, ac yn ei ddefnyddio, a bod y busnes yn perfformio yn ôl y disgwyl.

Un o ofynion y dyfarniad grant yw bod angen cadw'r offer a brynwyd gyda chymorth grant ar y safle, gan sicrhau ei fod yn weithredol ac mewn cyflwr da. Hefyd, rhaid iddo gael ei ddefnyddio at yr un diben â'r hyn a nodwyd yn y cais gwreiddiol, am o leiaf bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect fel y nodir yn y Llythyr Dyfarnu Grant. Gwneir hyn er mwyn sicrhau hirhoedledd y prosiect a sicrhau bod cynhyrchwyr cynradd yn cael cyfran barhaus o fanteision y prosiect.

**Cadw cofnodion**

Mae'n rhaid i chi gadw'r holl gofnodion a gwybodaeth sydd eu hangen arnoch i ddangos eich bod wedi darparu gwybodaeth gyflawn a chywir a'ch bod wedi cydymffurfio â'ch ymrwymiadau am bum mlynedd.

Hefyd, bydd gofyn i chi wneud y canlynol:

- Darparu unrhyw wybodaeth i Lywodraeth Cymru am eich Llythyr Dyfarnu Grant ar gyfer y cynllun cyfalaf Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru yn unol â'r amserlen a bennir gan Lywodraeth Cymru.
- Darparu cofnodion, cyfrifon, derbynebau a gwybodaeth arall gan gynnwys mynediad at ddata cyfrifiadur yn ymwneud â'ch Llythyr Dyfarnu Grant ar gyfer y cynllun cyfalaf Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, ei phersonau awdurdodedig neu ei hasiantiaid. Caniatáu i Lywodraeth Cymru gymryd unrhyw ddogfen neu gofnod o'r fath i wneud copïau neu i godi darnau ohoni/ohono.

## ADRAN I: GWEITHDREFN APELIO A CHWYNO

**Y weithdrefn apelio**

Mae'r 'Broses Apelio Annibynnol ar gyfer Grantiau a Thaliadau Gwledig' yn rhoi caniatâd i chi ofyn am adolygiad os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad cywir yn unol â rheolau'r cynllun.

Mae'r broses apelio yn cynnwys dau gam:

- cam 1: adolygiad gan Gangen Polisi Adnoddau Coedwigaeth, Llywodraeth Cymru
- cam 2: adolygiad gan y Panel Apelio Annibynnol (os ydych yn anfodlon â'r ymateb yng ngham 1)

Mae'r Panel Annibynnol yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru, sy'n gwneud y penderfyniad terfynol, gan ddod â'r broses i ben.

Nid oes tâl am gynnal cam 1 y broses ond mae tâl am gynnal cam 2 - £50 am wrandawiad ysgrifenedig neu £100 am wrandawiad llafar. Byddwn yn ad-dalu'r costau hyn yn llawn os bydd cam 2 yr apêl yn llwyddiannus neu'n rhannol lwyddiannus.

Rhaid i apeliadau, gan gynnwys y dystiolaeth, ddod i'n llaw trwy ebost at pren.timber@llyw.cymru o fewn 60 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr sy'n disgrifio'r penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn.

Mae croeso ichi ohebu â ni yn y Gymraeg a byddwn yn ateb unrhyw lythyr Cymraeg yn y Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at unrhyw oedi.

Rhaid i apelwyr a'u cynrychiolwyr beidio â chysylltu'n uniongyrchol ag aelodau'r Panel Apelio Annibynnol. Gallem ystyried hynny fel Ymddygiad Annerbyniol yn unol â'r **canllaw Rheoli Ymddygiad Annerbyniol gan Gwsmeriaid Llywodraeth Cymru**. Gall ymddygiad annerbyniol arwain at dynnu taliadau yn ôl a/neu wrthod cais neu hawliad.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses apelio a sut i gyflwyno apêl trwy ddefnyddio'r ffurflen apelio ar-lein ar gael gan y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid neu ein gwefan: **Apeliadau grantiau a thaliadau gwledig**

**Y weithdrefn gwyno**

Ymdrinnir â chwynion o dan weithdrefn Llywodraeth Cymru ar gwynion. Cewch fwy o wybodaeth am sut i wneud cwyn gan y Tîm Cynghori ar Gwynion:

Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 03000 251378

Cyfeiriad e-bost: **cwynion@llyw.cymru**

Gwefan: **Cwynion am Lywodraeth Cymru**

Gallwch hefyd ddewis cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203

Gwefan: **Ombwdsmon**

## ADRAN J: HYSBYSIAD PREIFATRWYDD: GRANTIAU LLYWODRAETH CYMRU

**Sut byddwn yn ymdrin ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu'ch cais am gyllid grant**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrywiaeth o gynlluniau grant er mwyn helpu i roi ein polisïau ar waith a chreu Cymru decach, fwy ffyniannus.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu'ch cais am gyllid grant. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) ac yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid.

Cyn rhoi cyllid grant i chi, rydym yn cynnal gwiriadau er mwyn atal twyll ac achosion o wyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi. Fel rhan o'r archwiliadau hyn, mae'n ofynnol i ni brosesu data personol amdanoch chi gydag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaethau atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, gallwn wrthod darparu'r cyllid grant rydych wedi gwneud cais amdano, neu gallwn stopio darparu cyllid grant rydych chi eisoes yn ei gael.

Bydd cofnod o unrhyw risg sy'n gysylltiedig â thwyll neu wyngalchu arian yn cael ei gadw gan yr asiantaethau atal twyll, a gallai hyn olygu y bydd sefydliadau eraill yn gwrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi.

Er mwyn asesu cymhwystra, efallai y bydd angen i ni hefyd rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'ch cais gyda'r canlynol:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Awdurdodau Lleol Cymru
- DEFRA
- Swyddfeydd eraill Llywodraeth y DU
- awdurdodau rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, Awdurdodau Lleol, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu.

Hefyd, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth gyda sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant, yn trosglwyddo gwybodaeth ac yn rhoi cyngor a chymorth arloesi ar ran Llywodraeth Cymru at ddibenion targedu cymorth yn briodol.

Gall eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, fod yn destun cais gan aelod arall o'r cyhoedd. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath, efallai y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 neu Ddeddf Diogelu Data 2018.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion y symiau a dalwyd i fuddiolwyr. Cyhoeddir data am bob buddiolwr a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion y symiau a'r cynlluniau y talwyd cymhorthdal ar eu cyfer. Fodd bynnag, ni chyhoeddir enwau pobl sy'n derbyn llai na'r hyn sy'n cyfateb i £1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y caiff ei gyhoeddi.

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau yn unol â'n polisi cadw gwybodaeth. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich data personol am 7 mlynedd ar ôl y dyddiad pan fyddwch chi, fel derbynnydd y grant, yn rhydd rhag holl amodau'r grant, a phob taliad wedi'i wneud. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn cadw eich manylion am flwyddyn ar ôl y dyddiad y gwnaethoch eu darparu.

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl:

- i weld y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch
- i ofyn i ni gywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hynny
- (o dan amgylchiadau penodol) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan amgylchiadau penodol) i ofyn am 'ddileu' eich data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: **swyddogdiogeludata@llyw.cymru**

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

2il Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 0330 414 6421

Gwefan: **https://ico.org.uk/**

Os oes gennych gwestiynau am y datganiad preifatrwydd hwn, cysylltwch pren.timber@gov.wales

**Hysbysiad preifatrwydd: grantiau Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU**

## ADRAN K: DEDDFWRIAETH

Mae'r cynllun cyfalaf Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru yn cyflawni amrywiaeth o ymrwymiadau ac amcanion y Llywodraeth, ac maent wedi'u rhestru isod ynghyd â'r ddeddfwriaeth a'r prosesau llywodraethu perthnasol.

Mae'r cynllun cyfalaf Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru yn cael ei lywodraethu gan Gyfraith a Gymhathwyd (a elwid gynt yn Gyfraith yr UE a Ddargedwir) sef Rheoliadau'r Cyngor Rhif 1305/2013, 1303/2013 a 1306/2013, Rheoliad Gweithredu Rhif 808/2014 a Rhif 809/2014 a Rheoliad Dirprwyedig 640/2014 a 807/2014 (fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd).

Mae'r Gyfraith a Gymhathwyd yn cael ei gweithredu yng Nghymru trwy'r gyfraith ddomestig ganlynol (fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd), gan gynnwys drwy'r Rheoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021/400 (Cy.129):

- Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014/3222 (Cy.327)
- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014/3223 (Cy.328)

Bydd cymorth ariannol ar gyfer ffermwyr, rheolwyr tir a sectorau gwledig cysylltiedig dros y 3 blynedd nesaf yn ymateb i bedwar amcan strategol Llywodraeth Cymru, sef:

- cwneud amaethyddiaeth yn fwy cystadleuol

- cyfrannu tuag at reoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy fel y'i nodir yn Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- gwrthsefyll effeithiau'r hinsawdd
- sicrhau datblygiad tiriogaethol cytbwys o economïau a chymunedau gwledig, gan gynnwys creu a chynnal cyflogaeth

Yn ogystal, mae'r cynllun grant Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru yn cynnwys tri amcan trawsbynciol:

- Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd
- Arloesi
- Yr Amgylchedd

Bydd eich prosiect yn cyfrannu at yr amcanion trawsbynciol hyn.

Bydd eich prosiect yn cyfrannu at themâu trawsbynciol canlynol Llywodraeth Cymru:

- Cyfle cyfartal a phrif ffrydio rhywedd
- Trechu tlodi ac allgáu cymdeithasol
- Y Gymraeg

Yn ogystal, bydd ceisiadau ar gyfer y cynllun cyfalaf Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru yn ystyried amcanion strategol a thematig Llywodraeth Cymru.

**Bydd y gweithgareddau yn berthnasol i o leiaf un o flaenoriaethau canlynol Llywodraeth Cymru:**

(1) Meithrin y broses o drosglwyddo gwybodaeth ac arloesi mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig.

(2) Gwella hyfywedd ffermydd a chystadleurwydd amaethyddiaeth o bob math ym mhob rhanbarth, a hyrwyddo technolegau ffermio arloesol a rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy.

(3) Hyrwyddo trefniadaeth y gadwyn fwyd, gan gynnwys prosesu a marchnata cynhyrchion amaethyddol, lles anifeiliaid a rheoli risg ym maes amaethyddiaeth.

(4) Adfer, gwarchod a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth.

(5) Hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth.

(6) Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig.

## ADRAN L: CYSYLLTIADAU

### Ymholiadau

Ar gyfer ymholiadau o bob math, anfonwch ebost at pren.timber@llyw.cymru

## Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych unrhyw anghenion arbennig nad yw ein cyfleusterau yn eich barn chi yn darparu ar eu cyfer, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Yna, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwneud eu gorau i wneud trefniadau a fydd yn darparu ar gyfer eich gofynion.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am Goedwigaeth, Ffermio a Chefn Gwlad, ewch i **wefan Llywodraeth Cymru**.

## Gwlad

Gwlad yw e-gylchlythyr Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau fferm a choedwigaeth a phawb sydd â diddordeb mewn amaethyddiaeth ac yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n cynnwys straeon newyddion, canllawiau a gwybodaeth mewn fformat hygyrch, hawdd ei ddarllen. Er mwyn clywed am yr holl newyddion a datblygiadau diweddaraf ym maes amaethyddiaeth, rydym yn eich annog i gofrestru i dderbyn e-gylchlythyr Gwlad. I gofrestru, ewch i **Hysbysiadau | LLYW.CYMRU** neu **Cofrestrwch ar gyfer newyddion amaethyddiaeth a choedwigaeth (Gwlad) | LLYW.CYMRU**